

Hannah Blythyn AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol  
Deputy Minister for Social Partnership



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1363  
Ein cyf/Our ref HB/00214/23

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Caerdydd  
CF99 1SN

[petitions@senedd.cymru](mailto:petitions@senedd.cymru)

05 Hydref 2023

Annwyl Jack

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Medi at Jane Hutt ynglŷn â'r ddeiseb a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau ynghylch yr adolygiad o'r ddarpariaeth argyfwng reng-flaen a gynhelir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar hyn o bryd. Rwyf i'n ymateb gan fod materion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth tân ac achub yn rhan o'm portffolio.

Fel pob corff cyhoeddus, mae Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd o dan bwysau difrifol yn ddi-baid, ond er gwaethaf hynny mae angen iddo sicrhau bod ymateb cyflym ac effeithiol i argyfyngau ar draws y Gogledd i gyd. Ar hyn o bryd, nid yw hynny'n bosibl yn aml yn yr ardaloedd mwyaf gwledig, yn enwedig rhannau deheuol o Gonwy a Sir Ddinbych, canol a De Gwynedd, a Phenrhyn Llŷn. Nid oes unrhyw orsafoedd llawn-amser i fwrdd oddi wrth arfordir y Gogledd, ac mae'n mynd yn anodd recriwtio a chadw diffoddwyr tân sydd ar alw i wasanaethu yn yr ardaloedd hyn. Nod yr adolygiad yw rhoi sylw i'r pwysau ariannol a gweithredol hyn, er fy mod yn deall y pryderon sydd wedi codi yn y cymunedau y gallai'r cynigion hyn effeithio arnynt.

O ran mater penodol gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy, mae'r awdurdod yn cynnig eu troi'n orsafoedd lle mae criw yn bresennol yn llawn-amser ystod y dydd, a bod gwasanaeth ar alw yn ystod y nos. Byddai hynny'n caniatáu i'r gorsafoedd tân yng Nghorwen, Dolgellau a Phorthmadog gael eu huwchraddio o ddarpariaeth ar alw i gael criw yn ystod y dydd, a hynny heb gostau ychwanegol. Rhaid i'r awdurdod sicrhau ei hunan y byddai'r cynnig hwn yn ddiogel a chyfiawnhau ei benderfyniad i'r cymunedau perthnasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar y cyfan, mater lleol a gweithredol i'r awdurdod yw'r adolygiad hwn, yn hytrach nag yn fater i Lywodraeth Cymru. Mae gan yw awdurdod benderfyniadau anodd eu gwneud, ond nid oes gennyf achos i ymyrryd na'r pŵer i wneud hynny. Hoffwn ychwanegu bod yr awdurdod, fel pob awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru, yn pennu ei gyllideb ei hun heb unrhyw gyllid craidd uniongyrchol na rheolaeth gan Lywodraeth Cymru, ac felly nid yw'r adolygiad yn cael ei yrru gan benderfyniadau cyllidebol sydd wedi eu gwneud gennym ni mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, byddwn yn annog yr awdurdod i ddod i benderfyniad sy'n gynaliadwy, fforddiadwy, ac yn deg i'w weithlu yn ogystal â chymunedau'r Gogledd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Hannah Blythyn'.

**Hannah Blythyn AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol  
Deputy Minister for Social Partnership